# Y DINESYDD

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH

## Tachwedd 1980

RHIF 71.


# GWARTH AR GYMRU

"Byddai'n warth ar Gymru pe bai Sinn Fein yn cael gorymdeithio drwy Gaerdydd ym mis Ionawr", meddai'r Cynghorydd Ceidwadol Nolan Smith. Cyfeirio ydoedd at gynllun y gweriniaethwyr Gwyddelig i gynnal rali flynyddol er cof am ferthyron 'Bloody Sunday' yng Nghymru am y tro cyntaf.

Cynhaliwyd yr orymdaith yn Birmingham fis Ionawr eleni pan dyrrodd 5,000 o bobl i goffáu'r I4 o ddynion a laddwyd gan filwyr Prydeinig yn Derry wyth mlynedd yn ôl. 'Nawr mae Nolan Smith a chynghorydd arall, sef Stefan Terlezki, yn galw ar yr Heddlu a'r cynghorau lleol i atal yr orymdaith a gynhelir ar y 25ain o Ionawr drwy Dremorfa, Y Sblot ac Adamsdown.

Cymeriad lliwgar yw'r Bonwr Terlezki. Bu erioed o blaid gwahardd unrhywbeth ac unrhywun sy'n groes i'w ddaliadau personol a gwleidyddol ei hun. Er enghraifft, mynnodd fod y ffilm 'Clockwork Orange' yn cael ei hatal rai blynyddoedd yn ôl; dadleuodd yn gynharach eleni y dylid gwahardd Sosialwyr rhag dal swyddi yn y gwasanaethau cyhoeddus ac yn yr undebau llafur. Achoswyd storm yn ddiweddar wedi iddo ddweud: "Dylai pob Comiwnydd fod ddeg troedfedd o dan y ddaear"!

Dim syndod, felly, ei fod yn gwrthwynebu hawl Sinn Fein i orymdeithio er gwaetha'r ffaith mai mudiad gwleidyddol cyfreithlon ydyw. Mae Smith ac yntau eisoes wedi trefnu deiseb ynghylch y mater. Ond bydd grwpiau eraill yn y ddinas, gan gynnwys Cenedlaetholwyr, Gweriniaethwyr a Sosialwyr, yn lansio ymgyrch i ddiogelu hawliau dinesig Sinn Fein.

"Tybed beth sydd gan yr awdurdodau a'u cynffonwyr megis Smith a Terlezki i'w guddio ynglŷn â rôl y Fyddin yng Ngogledd Iwerddon?" gofyn Robert Griffiths, Cymro Cymraeg o Gaerdydd ac ysgrifennydd Mudiad Gweriniaethol Sosialaidd Cymru. "Mae nhw'n awyddus tu hwnt i rwystro unrhyw ymdrech i gyflwyno achos yr ochr arall, sef Sinn Fein, i bobl Cymru neu Loegr", dywedodd Mr. Griffiths wrth y 'Dinesydd'. "Bron ar bob adeg y bu llefarwyr yn annerch cyfarfod stryd, mae nhw wedi cael eu harestio gan yr heddlu. 'Dyw'r Ddeddf er Atal Brawychiaeth ('Prevention of Terrorism Act') ddim wedi dal llawer o fomwyr ond mae yn brawychu'r Gwyddelod ym Mhrydain ac yn eu rhwystro rhag lleisio barn ar y sefyllfa yn eu mamwlad. Mae wedi galluogi'r Llywodraeth i anfon gweithredwyr gwleidyddol yn ôl i Ogledd Iwerddon i'w hynysu yno".

"Ar hyn o bryd, cyhuddir dau berson yn yr Alban o dan y ddeddf am eu bod yn gwerthu papur newydd sy'n cynnwys cyfweliad â'r Fyddin Weriniaethol Wyddelig. Mae Dafydd Elis Thomas ac Aelodau Seneddol eraill yn ymgyrchu ar ran y diffynyddion yn enwedig oherwydd y ffaith i un ohonynt dreulio wythnos yn y carchar - ac yntau'n noethlymun ar gais yr awdurdodau."

"Rhwystro'r bobl rhag clywed y gwir am helynt Ulster - dyna fu hanes a bwriad y Wladwriaeth Brydeinig a'i chyfryngau torfol erioed. Ond fedran nhw ddim twyllo pawb drwy gydol yr amser. Ym I978 condemniwyd Prydain gan y Llys Ewropeaidd dros Hawliau Dynol oherwydd "degrading and inhuman treatment" carcharorion y Blociau-H. Yr un flwyddyn dyfarnodd 'Amnesty International' fod Prydain yn euog o gamdrin pobl dan ddrwgdybiaeth yn ddifrifol. Cyfaddefodd Adroddiad Bennett ym I979 fod y Royal Ulster Constabulary yn euog o ymddygiad creulon a bwystfilaidd yn eu Canolfannau 'Holi' ('Interrogation Centres').

"Roedd 'Bloody Sunday' yn garreg filltir yn hanes helynt gogledd Iwerddon. Saethwyd I4 o bobl ddiarfog gan filwyr o Saeson y diwrnod hwnnw - trychineb a gryfhaodd yr I.R.A. yn aruthrol. Rhaid cydnabod y ffaith fod gan yr I.R.A. gefnogaeth trwch y boblogaeth Babyddol, ddosbarth-gweithiol yn Ulster heddiw a bod gweithgareddau'r Fyddin Brydeinig, yr S.A.S., yr R.U.C. a'r 'Ulster Defence Regiment' wedi cyfrannu'n fawr at y cryfder hwnnw."

"Mae'n warth ar Gymru fod milwyr o Gymru yn gormesu ac yn marw draw yn Iwerddon wrth wasanaethu Byddin Lloegr a'r Rheolaeth Brydeinig yno. Cynydda ein cywilydd fel cenedl os na chefnogwn orymdaith Sinn Fein drwy ein prifddinas ni. Hyderaf fod yna filoedd o Gymry o hyd sy' ddim yn llyncu'r propaganda Prydeinig ac yn arddel hawl pobl Iwerddon gyfan i benderfynu dyfodol eu gwlad - heb ymyrraeth Lloegr."

Gohebydd Arbennig


Carai'r Dinesydd ddiolch i Gymdeithas Celfyddydau Deddwyrain Cymru am ei chefnogaeth ariannol tuag at y rhifyn hwn.

# Dewrder

Nos Lun, Medi'r 29ain cynhaliwyd cyfarfod brwd ym Mhontypridd i ddangos cefnogaeth rhieni Morgannwg Ganol i'r wyth rhiant dewr o Ynysybwl sy'n eistedd i mewn yn Ysgol Pont Sion Norton, Pontypridd ers y cyntaf o'r mis.

Ar y diwrnod hwnnw, aeth yr wyth plentyn a'u mamau i'r Ysgol Gymraeg. Yno i'w disgwyl 'roedd Swyddog Addysg o'r Sir. Dywedodd wrthynt na châi'r plant ddechrau yno ond byddai addysg Gymraeg ar gael iddynt mewn uned Gymraeg yn Ysgol Saesneg Craig-yr-Hesg, Ynysybwl. Penderfynasant yn y fan a'r lle na fyddent yn gadael yr ysgol nes y derbynnid eu plant yno. Ac yno maent yn dal i feddiannu'r adeilad - a hynny mor bendant ag erioed.

Mae'r sefyllfa ym Mhont Sion Norton braidd yn anhygoel. Rhennir yr ysgol yn dri adeilad bychan. Mewn dau ohonynt mae'r Ysgol Gymraeg. Mewn dwy stafell yn y trydydd adeilad mae'r Ysgol Saesneg. Deunaw o blant sydd yn yr Ysgol Saesneg hon o dan ofal Prifathrawes, Dirprwy Brifathrawes ac Athrawes - hynny yn y dyddiau hyn o gwtogi! Yr Ysgol Saesneg hefyd sydd biau'r unig neuadd yn y tri adeilad. Yn ogystal â hyn, fe delid athrawes yn ystod y mis diwethaf i ofalu am y Dosbarth Cymraeg yng Nghraig-yr-Hesg. Dosbarth di-blant! Nid yw'r Prifathro yn yr Ysgol Saesneg yn Gymro Cymraeg nac yn dangos unrhyw ronyn o ddiddordeb mewn addysg Gymraeg.

Mae'r rhieni (yn enwedig rhiant un ferch ymhlith yr wyth plentyn) yn bendant na fyddant yn anfod eu plant at yr Uned. Fe apeliwyd at Nicholas Edwards ynglŷn â'r sefyllfa ond maent yn dal i ddisgwyl ateb.

Yn ogystal â meddiannu'r Ysgol maent hefyd wedi picedu tŷ Is-Gadeirydd y Pwyllgor Addysg sy'n bennag gyfrifol am y penderfyniad. Erbyn hyn dygid y baich oddi ar ysgwyddau rhieni Ynysybwl ac mae rhieni Ysgolion Cymraeg Morgannwg Ganol yn meddiannu'r ysgol hefyd.

Mae dewrder yr wyth rhiant yn fawr. Maent yn sicr mai Ysgol Gymraeg yn unig a rydd addysg gyflawn a theilwng i'w plant. Os enillir achos Pont Sion Norton fe fydd ar blant Ysgolion Cymraeg y dyfodol ddyled mawr iddynt. Diolch amdanyn nhw.

Eleri Betts

# Cyngerdd Glantaf

Y STORWS I'W DRWS O DRYSOR

Gallai'r llinell uchod o awdl 'Y Cynhaeaf' Dic Jones fod yn ddisgrifiad perffaith o Theatr y Sherman, nos Sul, Hydref 5ed wrth i gynulleidfa lond y lle fwynhau cyfoeth o adloniant gan ddisgyblion Ysgol Gyfun Glantaf.

Ers blynyddoedd bellach diddenid cynulleidfaoedd Caerdydd a'r Fro gan ddisgyblion Rhydfelen a Llanhari a da yw nodi fod Glantaf yn etifedd teilwng o'r traddodiad anrhydeddus hwn.

Cafwyd dwyawr o arlwy safonol gan 300 o blant, yn gantorion ac yn offerynwyr. 'Roedd yr hynaf yn dair ar ddeg, a llawer ohonynt wedi bod yn yr ysgol am fis yn unig.

Perfformiwyd rhaglen o gerddoriaeth, yn ganeuon gwerin Cymraeg ac yn glasuron byd-enwog ac fe glymwyd y cyfan gan Gôr Adrodd a gyflwynodd ddyfyniadau o awdl 'Y Cynhaeaf' Dic Jones. Profiad amheuthun oedd clywed plant y ddinas mor gyfarwydd â thermau a seiniau cefn gwlad. Er fod llawer o rieni'r plant wedi gadael cefn gwlad i ddilyn gyrfa, mae'n destun diolch fod y Gymru Gymraeg wedi eu dilyn yma a phlannu ei hun yn y genhedlaeth newydd. Hir y parhaed y cynnydd hwn i godi calon pawb sy'n bryderus am ddyfodol yr Iaith.

Diolch i Alun Guy a'i gydweithwyr am drosglwyddo eu brwdfrydedd heintus i'r plant a diolch i'r plant am ymateb mor wych.

Mae un broblem fawr ar y gorwel, fodd bynnag. Pan ddaw yr ysgol i'w llawn dwf, ymhle y gall côr a cherddorfa o fil berfformio? Pafiliwn 'Steddfod 'falle?

Gohebydd Arbennig

## Golygyddol

Yn y gorffennol, tueddai rhai i gredu fod y papur hwn yn eiddo i garfan arbennig o Gymry Cymraeg Caerdydd. Ond o hyn ymlaen, gobeithiwn y bydd y 'Dinesydd' yn adlewyrchu holl amrywiaeth y ddinas gymysgryw hon - bywyd gwŷr 'y pethe' a bywyd pobl yr ymylon. Maent oll yn rhan o wead Caerdydd. Hebddynt, fe fyddai'r tapestri dinesig yn rhacs.

Mae'n amlwg fod beirniadaethau Gwynn ap Gwilym wedi pryfocio cryn ymateb. Fe garwn i ateb rhai o'i sylwadau. Honna mai un teip o Gymro sy'n byw yn y brifddinas sef y Cymro dosbarth canol, proffesiynol. Awgrymaf mai bas yw ei adnabyddiaeth o Gaerdydd. Ni chwrddodd â Mel, y gyrrwr tacsi, Paul, y gyrrwr bysiau, Elis, y siop bapur, Ladd, y fferyllydd, criw y 'Greyhound' na llu o werinwyr eraill. Nid wyf yn siwr pam. Mae'n bosib ei fod yn rhy brysur yn pwyllgora mewn gwesty moethus gyda'i gyd-ddeallusion dosbarth canol. Gellir dadlau fod y gwerinwyr uchod yn lleiafrif yn y ddinas. Ond lleiafrif yw'r Cymry Cymraeg yng Nghymru. A ddylem felly gael ein hanwybyddu?

'Chwi Gymry Cymraeg Caerdydd', meddai Gwynn ap Gwilym, 'dychwelwch adref i'ch cynefin ... yn hytrach na chael eich ysgubo ymaith gan y gwynt Seisnig oddi ar balmentydd concrid y ddinas fawr'. Barddonol iawn. Ond ga' i ddweud y gwir plaen. Y Rhâth yw fy nghynefin. Yma y ces i fy ngeni ac yma y bûm yn byw. Ac yma y safaf er mwyn parhau'r dreftadaeth a drosglwyddwyd imi. Pa hawl sy gan ryw allanwr haerllug i'm perswadio i droi fy nghefn ar fy nheyrngarwch dinesig?

---

Deallwn fod Mudiad Meddwi Caerdydd ar fin cael ei sefydlu yn y ddinas. Cysylltwch â'r Crwys ar nos Sul (nid y Capel).

---

Llongyfarchiadau i Huw a Myra Phillips ar enedigaeth eu merch, Elen Rhiannon. Deallwn fod y baban wedi ei eni ar ddydd Glyndŵr. Hyfryd yw gweld yr ysbryd chwyldroadol yn codi.

# Uno'n Genedl cyn ei cholli

Mae Gwynn ap Gwilym wrthi eto am Gaerdydd - olreit, fe'i gwahoddwyd, ond y tro 'ma mae'n rhaid imi ei ateb, am fy mod i'n licio byw yng Nghaerdydd (na, wna'i ddim defnyddio 'hoffi') ac mae'n rhaid rywsut egluro pam.

Iawn, mi dderbynia'i mai pobol ddwad ydi'r rhan fwyaf ohonom sy'n Gymry Cymraeg - ond gan nad ydw'i'n derbyn y syniad o 'ddosbarth', mae, imi, gymaint o amrywiaeth o unigolion yma ag sy'n unman arall. Na, dydi'r dyn llefrith, na'r bwtshiar ddim yn siarad Cymraeg - ond mi 'roedd ei daid, a mi fysa ynta wedi licio'r cyfle, a Chymro ydi o - Cymraeg neu beidio. Mae'n llawer haws siarad ag o na'r Sais o Lerpwl 'ta Birmingham sy'n cadw'r siop bapur yn Port., Bangor, Brynsiencyn, Dinas a Thywyn. Mae hwn, yng Nghaerdydd, yn ei ardal ei hun ac mae'n rhaid inni'r Cymry Cymraeg sylweddoli mai dim ond lwc sydd wedi'n cadw felly - lwc llinach neu lwc lle. Gallem yn hawdd fod wedi bod ymhlith y miloedd gollodd eu hiaith heb fod unrhyw fai arnynt.

Pam mae'r ysgolion Cymraeg yn 'anffodhaol' gin G. ap G. dwn i ddim ond mi wn fod 'na rai sy'n dysgu Cymraeg ynddynt a'u rhieni'n ddi-Gymraeg, a mi wn eu bod yn magu parch at eu cefndir a'u gwreiddiau. Hen lol ydi cicio yn erbyn Caergrawnt a Rhydychen - 'chreda'i byth nad enillodd mwy o Rydfelen wobr Evan Morgan i Aberystwyth na fawr neb arall a 'does dim rhaid inni i gyd 'neud yr un fath, 'nagoes?

Bobol annwyl, os oes rhywbeth yn saff yng Nghymru mi fyswn yn meddwl mai beirdd "yn y traddodiad cynganeddol clasurol" ydi rheini. Glywsoch chi nhw'n y Babell Lên? Mi 'roeddan nhw o Gaerdydd yn y fan'o hefyd. Petaeth chi'n sôn am athrawon all ddysgu Mathemateg, Cemeg a Bioleg drwy gyfrwng y Gymraeg, am ddynion busnes sy'n drwyadl Gymreig eu hagwedd, am fancwyr a siopwyr, gwerthwyr tai a thwrneiod sy'n deall ystyr bod yn Gymry, mi allwn i ddeall eu bod cyn brinned yma ag yn unrhyw ran arall o Gymru.

Mi gytunwn nad yw'r Gymraeg yn debyg o fod yn iaith y mwyafrif yng Nghaerdydd ond 'rydwi'n sicr ei bod yn bwysig i bobl Caerdydd dderbyn y lleiafrif sydd yma'n siarad Cymraeg. Hi yw eu mamiaith hwythau a gallant ymfalchïo yn ei bodolaeth. Maent wedi peidio â synnu derbyn sieciau Cymraeg a chlywed plant yn siarad Cymraeg o'u cwmpas. Mae'r Gymraeg ar Ddarlledu Caerdydd a hysbysebion (yn Saesneg) yn gofyn a hoffent i'w plant ddysgu Saesneg a Chymraeg yn yr ysgol feithrin leol (fel y sylwais yn Y Bontfaen). Petâem yn sicrhau fod Cymry di-Gymraeg Caerdydd, y Cymoedd a'r Fro yn cefnogi'r iaith am ei bod yn iaith eu gwlad hwy, byddem yn agor cwys go ffrwythlon chreda'i byth.

Mae angen Cymry ffyddiog yng nghefn gwlad Cymru a swyddi ar eu cyfer. Ond mae angen Cymry yma hefyd, ac mae llawn cymaint o frwydrau i'w hymladd yma oherwydd mae'n rhaid inni uno'n genedl cyn ei cholli. Gobeithio nad ydi hi'n rhy hwyr.

Manon Wyn Griffiths

# Blwyddyn hapus

Mae'n anhygoel fod blwyddyn gron wedi hedfan er pan agorwyd Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd. Flwyddyn yn ôl 'roedd pawb â'u llygaid arnom yn disgwyl gweld pob math o broblemau'n codi yn sgîl adroddiadau'r wasg. Gwelsom benawdau fel "segregated schooling","separatism", "apartheid" a "favouritism" yn y papurau dyddiol, a hyd yn oed, "Welshies go Home" yn y 'Dinesydd'. Naturiol felly oedd inni i gyd, yn athrawon, rhieni a ffrindiau'r achos, deimlo rhywfaint o bryder wrth ddechrau ar y fenter hon.

Teimlaf yn falch heddiw wrth ddweud ein bod wedi cael blwyddyn gyntaf hapus dros ben. Yn wir, mae prifathrawes ac athrawon Ysgol Eglwys Wen yn agos atom mewn mwy nag un ystyr. O'r cychwyn cawsom groeso cynnes i rannu'r un campws â nhw a chawsom gydweithrediad a charedigrwydd drwy'r flwyddyn. Gallaf ddweud heb flewyn ar fy nhafod nad oes gair croes wedi bod rhyngom.

A beth am y plant? Credaf eu bod hwythau wedi cael blwyddyn hapus lewyrchus. Wedi'r cwbl, nhw sydd yn bwysig. Ein gwaith ni yw gofalu eu bod yn cael pob chwarae teg.

Mae llawer wedi holi hynt a helynt yr ysgol ac efallai fod gan rai ohonoch ddiddordeb mewn darllen am ddigwyddiadau'r ysgol y llynedd. Felly, fe geisiaf roi gair bach am bob tymor yn ei dro.

Ymgartrefodd y plant yn wyrthiol ar unwaith. Fe ddwlodd y rhai a ddaethai o Fryntâf ar ein tai bach melyn a phinc a synnu fod y fath beth a seddau bychain arbennig yno! Yn wir, fe dreuliasom beth amser yn ceisio eu denu allan o'r lle yn ystod yr wythnos gyntaf.

Inni'r athrawon, tymor croesawu ymwelwyr oedd y tymor cyntaf. (Gall hynny fod yn dipyn o straen weithiau.) 'Rwy'n siwr inni weld pob swyddog o'r Swyddfa Addysg yn ogystal â phobl y teledu a'r wasg. 'Doedd dim llonydd. Cofiwch chi, nid cwyno yr wyf i am y swyddogion addysg. Fe ddaethant i'n helpu i gyd a rhoddasant bob cefnogaeth inni.

Aeth y tymor yn ei flaen yn hwylus. Cynhaliwyd Gwasanaeth Nadolig hyfryd, yng Nghapel Bethel, Yr Eglwys Newydd. 'Roedd y capel yn orlawn a braf oedd gweld yno bobl o'r pentref nad oedd ganddynt gysylltiad â'r ysgol o gwbl. Darganfuom fod gofalwr y capel hwn yn Gymro Cymraeg a gwirionodd yntau ar glywed yr iaith Gymraeg ar enau'r plant bach. Wrth ddewis capel Bethel fe glymason ein hunain wrth gymdeithas pentref Yr Eglwys Newydd a dechrau cyflawni ein nod o fod yn ysgol bentref.

Uchafbwynt yr ail dymor ym meddyliau'r plant, mae'n siwr, oedd Dydd Gŵyl Dewi - diwrnod tynnu lluniau a phob merch yn gwisgo gwisg draddodiadol a'r bechgyn yn gwisgo cennin neu gennin Pedr. Penderfynasom roi llun i bob plentyn yn rhad ac am ddim fel y gallent gofio'r Dydd Gŵyl Dewi cyntaf yn ein hanes. Cynhaliwyd cyngerdd hefyd ac 'roedd pob plentyn yn falch o gael perfformio ar y llwyfan yn y neuadd.

Fe gymerodd yr ysgol ran yn yr Ymgyrch Lyfrau yn ystod y tymor hwn. Yn wir, cawsom ein synnu gan ymateb y rhieni. A chysidro taw dim ond 62 o deuluoedd oedd genn gennym, gwyrth oedd gweld gwerthiant mor dda ar y llyfrau. Yn ddi-os, uchafbwynt yr ail dymor i'r rhieni ac i ninnau'r athrawon

PARHAD AR DUDALEN 9

# GAIR I GALL

## Colofn i'r 'Pethe'

Dyna fyd rhyfedd y mae rhai'n byw ynddo, yntê, byd lle y mae Caerdydd yn "ddinas Seisnig" a'r *Welsh Office* y felltith 'na'n un o'r 'sefydliadau Cymreig'. Ond wedyn, byd rhyfedd iawn y buodd Gwynn ap Gwilym yn byw ynddo erioed - byd lle y mae ychydig o dystysgrifau addysg yn bechod marwol (i bawb ond ein Harwr, wrth gwrs) a bodau dynol digon cyffredin yn troi'n gerrig mewn anialwch trefol, hunllefus.

Pwy, atolwg, yw'r Cymry dysgedig, ffroenuchel y buodd Gwynn yn troi yn eu mysg? Gofynnais i Gwen o lawr yr heol a oedd ganddi bum lefel O ond wedi dod i fenthyca hanner can ceiniog i brynu sigarets yr oedd hi. Gofynnais i'r bois sy'n gwneud llanast o'r tarmac rownd y gornel, ond fiw imi argraffu'u hateb mewn papur teuluol, er yn ddiau ond odid heb os nac onibai'n bendifaddau, y byddai'n cyfoethogi geirfa'r darllenwyr yn ddirfawr. Fues i ddim mor ffôl â gofyn yr un cwestiwn yn y gwaith. Oes, mae 'na bobl hunanfodlon, da eu byd a chul eu gorweliion yn y ddinas hon ond 'does dim rhaid mynd can milltir o Senedd-dŷ Glyndŵr i gwrdd â'r rheiny.

Ble, 'sgwn i, mae'r ddinas Weledigaethufffernol y mae ein Harwr yn ei lambastio yn 'Yr Efengyl yn ôl Gwynn' bron bob mis? Oherwydd er imi dramwyo strydoedd plantllawn a thafarnau tra thywyll yr hen gymdogaethau, archwilio'r stadau newydd maith a holi hwn a'r llall, methais i'n lân â dod o hyd iddi. Imi, mae bois y ddinas a'i chrotesi pert yn debyg iawn i bobl Dulyn. Mae awyrgylch fusneslyd, agos-atoch Glanyrafon neu'r Rhâth yn f'atgoffa i'n arw o bentrefi'r garreg las a'r glo. Ym mywyd distop y palmant, y caffi, a chornel y stryd - bywyd sy'n nodweddiadol iawn o wareiddiad y De - mae dyn yn cael peth o naws y brôydd tesog hynny lle'r oedd Cymry cefnog yr hen amser yn prynu eu gwin. Dinas Seisnig? 'Dyw Gwynn ond yn profi cyn lleied y gŵyr ef am Loegr!

A beth yr ydym i gyd yn ei wneud yma? Miloedd o wahanol bethau, a dweud y lleia! 'Does dim ateb cynhwysfawr sy'n gweddu i bawb. Daeth llawer yma o'r Gogledd a'r Gorllewin am iddynt fethu ffindo gwaith yno. Nid yw pawb yn ddigon ffodus i fod yn etifedd fferm neu'n drefnydd eisteddfod. Mae'n rhaid i rywun fyw a bod lle bynnag y bo. Ac os ym mhrifddinas Cymru y mae'n digwydd bod, pam y dylai roi'r gorau i fod yn Gymro? Cofiwch, mewn gwareiddiad hanfodol drefol yr ydym yn byw ynddo fyth oddi ar y Chwyldro Diwydiannol. 'Rydym yn ddisgynyddion i Ferched y Gerddi a gerddai bod cam i Lundain ac yn blant i'r miloedd a grwydrai Gymru gyda throad tymhorau i geisio gwaith a bywoliaeth. Dosbarth trefol y fwrdeisiaeth a luniodd drefn ein cymdeithas, ein hamodau byw, lawer o'n syniadau a'n teimladau a hefyd y ddelwedd Ynys-afallonaidd honno o fuchedd wledig y mae Gwynn ap Gwilym yn ei choleddu.

Mae cyfalafiaeth fonopolistaidd wedi bwrw rhwyd ddur o Eingl-Americaneg am ein planed. Ein dyletswydd ni oll yw amddiffyn a meithrin ein gwahanol ffyrdd o fod yn ddynol. Ychydig o wythnosau'n ôl, yng ngholofn radio a theledu'r 'New Statesman', gwadodd Julian Barnes hawl gwareiddiad Cymru i fod. 'Doed neb yn disgwyl gwell gan esgus o sosialwyr glastwraidd o Dde-ddwyrain Lloegr. Ond trist yw gweld yr un culni hunan-fodlon yn y wlad hon. Dyma'r cyntaf o dri cham a ddaeth yn arswydus o gyfarwydd inni yn ystod y ganrif hon. Y broses yw:-

(i) "Nid oes hawl gennych i fod fel hyn"
(ii) "Nid oes hawl gennych i fod yn ein plith"
(iii) "Nid oes hawl gennych i fod"

Os yw'r gelyn byd-eang am ddinistrio popeth nad yw'n debyg iddo, mae ei fân efelychwyr am wingo, sgrechan a phoeri'n erbyn pobl eraill sy'n mynnu torri llwybr eu hunain drwy'r dryswch a'r anialwch. Mae'r gwynt yn chwythu digon o hadau ffasgaidd arnom o ochr draw Clawdd Offa. Nid oes angen iddo fwrw hadau Cymreig yn y wlad hon. Yr ydym oll yn digwydd bod yn y lle yr ydym ni er gwell neu er gwaeth. Yn y fan hon y mae'n rhaid inni fyw, bod a brwydro. Cadwed Gwynn ap Gwilym ei geffylau pren yn deganau i'w blant a gadael llonydd i'r rhai sy'n gorfod ennill eu bara a chaws yn yr hen fyd dryslyd ond annwyl hwn.

Tim Saunders

Da deall bod Mrs. Bethan Roberts yn gwella ar ôl llithro a thorri ei braich yn Ysgol Glantaf.

Ar noson wlyb aeafol ar Hydref 6ed, daeth llawer o ffrindiau hen a newydd o Ferched y Wawr i dalu teyrnged i wraig annwyl iawn yn ein mysg sef Lisa Erfyl. Bu Lisa yn golofn i'r 'Pethe' tra oedd yn byw yn y ddinas a mawr fu ei chyfraniad i Ferched y Wawr. Daeth côr Lisa i'n diddanu a chafwyd adloniant ardderchog gan gynnwys canu gwerin, rhyddiaith a barddoniaeth.

Cyflwynodd Mrs. Ann Rees, sef un o ffyddlonwyr y Gangen, anrheg i Lisa sef cwpan a durniwyd o bren ywen gan saer lleol. Diolchodd Mrs. Ann Jenkins i artistiaid y noson.

Fel hyn y canodd un o feirdd ieuanc Llandaf i Lisa ar achlysur ei hymadawiad i Ddyffryn Clwyd:-

### CYWYDD CYFARCH I LISA

Mae'r gân fu ym Morgannwg?
Mae'r wraig gu na wybu wg?

Aeth o'n plith, fel gwlith, i Glwyd, -
Di-awen y'n gadawyd.
Mor wag, mor unig fy mro
A'm hoyw un ddim yno.
Daeth ias gaeaf i'm haf mwy,
Oer hirlwm wedi'r arlwy.
Maes Mihangel heb delyn, -
A oes gôr heb Lisa a Gwyn?
Merched y Wawr sy' rawron
Yn brudd heb eu Llywydd llon,
A phlant ysgol yn holi
Hiraeth am ei hafiaith hi.

Mireiniaf ferch Meirionnydd -
Glanach, addfwynach fydd.
Ein llyw, ein lleufer, ein lles
A'n gwyleiddiaf arglwyddes,
Yn gyforiog o firi,
A mwyn iawn, fel mam i ni.
I bawb, pwy bynnag y bo,
Rhoit hwyliog wresog groeso.
Deuai haid o blant i'th dŷ -
Hynod dy wersi canu;
A miloedd a ganmolant
Dy wyrth wrth osod cerdd dant.

Hael Wenhwyfar, a'th gariad
Yn lleu i'r glyn, yn lloer gwlad.
Daw'r ymgom a gawsom gynt
I gof er pob gaeafwynt;
Yn fyw iawn clywaf o hyd
Fwyn alaw fy anwylyd.

Minnau yn awr ddymunaf
Boed it hud yr hyfryd haf;
Eto boed iechyd iti,
A gwyn fyd dy deulu di.

Robin Gwyndaf

# NODION CWM RHYMNI

Rhai dyddiau'n ôl daeth 'Barn' mis Medi i law, ac ynddo ceir rhestr o enwau rhai oedd yn gwrthod talu'r drwydded deledu. Ar ben rhestr Morgannwg mad D. G. Pritchard, Hengoed - ei enw ef oedd y cyntaf ar y rhestr genedlaethol faith a gyhoeddwyd yn 'Y Ddraig Goch Chwefror eleni. Ond tra ar ei wyliau yn Llydaw yn ystod mis Awst bu farw David Glyn Pritchard, 44 oed, o 14 Barry Close, Penpedairheol, Hengoed. Ef yn ddiamau oedd cenedlaetholwr amlycaf Cwm Rhymni. Meddai 'Y Cymro', 2 Medi, amdano:

> "Ef oedd un o'r ddau genedlaetholwr cyntaf i weithredu'n union-gyrchol yn enw Cymru ar ddechrau'r chwedegau. Dirwywyd ef a'i gyfaill wedi iddynt wacáu olew o drosglwyddydd trydan ar safle argae Tryweryn yn 1962."

Ni laesodd y brodor o Dredegar Newydd ei ddwylo yn y gweithgarwch gwleidyddol o Dryweryn hyd y Bedwaredd Sianel. Claddwyd ef ym Mynwent Eglwys y Plwyf, Bedwellte. Gedy wraig, Judy, ynghyd â llys-fab a llysferch.

I ni yng Nghwm Rhymni rhifyn cyfoethog iawn ydi'r ail rifyn o 'Cymod' - papur Cymdeithas y Cymod yng Nghymru. Yn y rhifyn diweddaraf mae'r golygydd, y Parchedig Ddoctor D. Ben Rees, Lerpwl, yn talu teyrnged haeddiannol i Orthin Thomas, Trethomas wrth iddo drosglwyddo awenau'r trysorydd i rywun arall. Dan y teitl 'Cydnabod dau o'n harweinwyr' meddai'r 'Cymod':

> "Pan eir ati i gofnodi hanes yr heddychwyr Cristnogol yng Nghymru yn y cyfnod wedi yr Ail Ryfel Byd fe roddir lle i lawer o feibion a merched dawnus ac yn eu plith y Parchedig John Thomas Williams ac Orthin Thomas.
>
> Ni fu ef mor amlwg ar y llwyfan cyhoeddus ond ni bu ei debyg am sefyll yn gadarn ar faterion yn ymwneud â Chymod. Gŵr yn caru'r encilion, yn mawrygu sgwrs ar ei aelwyd yn Nhrethomas ac yn mwynhau gwrando a gweithredu'r efengyl yn y capel bach Cymraeg Methodistaidd Calfinaidd sydd bron ar drothwy ei ddrws. Saif Trethomas ar ffin Gwent a Dwyrain Morgannwg ac yno y tystiolaethodd Orthin Thomas i draddodiadau gorau y werin Gymraeg. Ni chafodd treigl y blynyddoedd oruchafiaeth ar ei ysbryd na'i ddeall nac anawsterau y llif Seisnig, materol sydd mor amlwg bellach yng Ngwent. Bu ei ffyddlondeb i Gymdeithas y Cymod a'i groeso i rai ohonom a fu ar yr aelwyd yn gywir a chynnes a chredodd yn nhystiolaeth y Crynwyr er ei fod yn aelod mor gymeradwy o'r Presbyteriaid. Daliodd cadernid Blaenau Ffestiniog yn ei gerddediad a daliodd Cariad Crist ef yn ei fywyd. Yr wyf yn falch o gael cyfle i ddymuno'n dda iddo a diolch didwyll am ei gyfraniad clodwiw."

Dau wahanol iawn i'w gilydd oedd D. G. Pritchard ac Orthin Thomas, dau â dwy weledigaeth wahanol ond dau a safodd yn driw i'w hegwyddorion. Mae David Pritchard wedi ein gadael ond deil Orthin Thomas ati. Diolch am gael adnabod y ddau.

Dafydd Islwyn

# Y Dechreuad

Prynhawn Dydd Mercher, Hydref 1, 1980 cynhaliwyd Cystadleuaeth Ras Traws Gwlad Cymdeithas Chwaraeon Ysgolion Cymraeg Cwm Rhymni ym Margeod. Daeth pedair ysgol ynghyd a chynhaliwyd dwy ras, un i'r bechgyn a'r llall i'r merched. Dyma'r canlyniadau:-

Y Bechgyn -

1. Jason Lugg, Caerffili
2. Robert West, Caerffili
3. Tony Wilding, Bargoed

Y Merched -

1. Allison Gabe, Caerffili
2. Siân Hardacre, Bargoed
3. Gaenor Bishop, Caerffili

Cyflwynwyd plac i'r ddau gyntaf a thystysgrif i'r ddau ail, a tharian i'w dal am flwyddyn i'r ysgol fuddugol, Caerffili. Bargoed oedd yn ail, Senghennydd yn drydydd a Rhyd-y-Grug yn bedwerydd.

Dafydd Islwyn

## Y CALENDR

Tachwedd 20 - Ionawr II: Tŷ Turner, Heol Plymouth, Penarth. Detholiad o'r Oes Ramantaidd.

Tachwedd 22: Y Tabernacl. Cyngerdd Ysgol Llanhari.

Tachwedd 25: Darlithfa Reardon Smith, Heol y Parc am 7.30 p.m. Mynediad am ddim. Ensemble y Brifysgol - Pedwarawd llinynnol yn G, Haydn; Sonata yn E i'r Piano, Beethoven, a Sonata yn A i'r Piano, Dvorak.

Tachwedd 28: Ysgol Llanhari. Noson wobrwyo. 7.30 p.m.

Tachwedd 29 - Ionawr II: Prif Adeilad, Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Arddangosfa o waith Wyndham Lewis.

Tachwedd 29: Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Tŷ'r Cymry. Cyfarfodydd Pregethu am 2.30 p.m. a 6.00 p.m. - y Parch. Gareth Davies, Llanelli.

Tan Tachwedd 30: Prif Adeilad, Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Arddangosfa o waith Julius Caesar Ibbetson.

Rhagfyr I: Festri Minny Street am 7.30 p.m. Merched y Wawr - 'Gwneud a Gwerthu'. Yna Miss Evelyn Williams gynt o'r B.B.C. yn sgwrsio am ei gwaith.

Rhagfyr 2: Darlithfa Reardon Smith am 7.30 p.m. Mynediad am ddim. Ensemble y Brifysgol - Triawd i'r Piano (perfformiad cyntaf) Howard Watt; Sonata, op.25 Rhif I Harries; Bagatelles i biano Daniel Jones; Triawd i'r Piano, op. 30 Mathias.

Rhagfyr 6: Ffair Nadolig Ysgol Glantaf yn yr ysgol. 2.00 p.m.

Rhagfyr 7: Theatr y Sherman am 8.00 p.m. J. O. Roberts, Y Diliau a Mona Meirion yn cyflwyno portreadau ar lafar ac ar gân o rai cymeriadau lliwgar a gwreiddiol. Pris - £2.

Rhagfyr 7: Gŵyl Nadolig Rhydfelen yn Neuadd y Parc a Dâr, Treorci.

Rhagfyr 9: Darlithfa Reardon Smith am 7.30 p.m. Mynediad am ddim. Aaron Rosand a Martin Jones - Sonata yn G leiaf (The Devil's Trill) Tartini; Sonata yn D leiaf, op. I08 Brahms; Sonata Rhif 3 op. 78 Rhif I Hoddinot; Malaguena, Zapateado, Sararate.

Rhagfyr II: Ysgol Rhydfelen yn perfformio Blodwen Joseph Parry yn Ysgol Afon Taf, Merthyr

# YN IACH I LANNAU TAF

'Rwyf newydd dreulio tair blynedd ym mro'r 'Dinesydd' a hwn oedd y tro cyntaf imi fyw yn y De. Ym Maldwyn ac yn Nyffryn Clwyd y mae gwreiddiau fy nheulu ac yn Llundain y'm magwyd i. Dim ond unwaith y clywais air am Forgannwg yn y tŷ yn Llundain - pan oeddwn tua saith mlwydd oed. 'Roeddwn i'n helpu Mam i ddanfon cardiau 'Dolig at restr hir o berthnasau. Llu o gardiau yn mynd i Fachynlleth a Dinbych ond ambell un yn mynd i leoedd dierth:- "Hei, pwy 'di'r Auntie Annie 'ma o 'Mountain Ash', Mam?" "O, taw son amdani, 'aonan. Chwaer i'th Nain oedd hi ond mi briododd â dyn o 'South Wales' 'sti a mynd yno i fyw hefo caneri mewn pwll glo a neb o'r teulu wedi'i gweld hi byth ers hynny."

Heblaw wythnos fendigedig yn yr Eisteddfod yng Nghaerfyrddin yn '74, hwn oedd swm a sylwedd fy mhrofiad o'r De. Ond yn Hydref I977, cychwynnais ar ran glinigol fy nghwrs meddygol yn Ysbyty'r Mynydd Bychan. 'Roeddwn wedi treulio tair blynedd hyfryd iawn mewn prifysgol yn Lloegr lle cawswn addysg a oedd yn ddigywilydd o Saesneg a Seisnig. Yn fy niniweidrwydd, edrychais ymlaen at dderbyn addysg Gymreig (a Chymraeg, hyd yn oed) mewn prifysgol ym mhrifddinas Cymru.

Fe'm dadrithiwyd mewn ychydig o amser. Yn ystod y tymor cyntaf fe gefais fy hun mewn slymdy llaith yn un o strydoedd tlotaf Y Rhâth gan fod neuaddau preswyl yr Ysgol Feddygol yn orlawn. 'Roedd cwrs y flwyddyn gyntaf yn araf ac yn ddiflas. Saeson oedd y rhan fwyaf o'm cydfyfyrwyr. Nid oedd ganddynt fawr o ddiddordeb yng Nghymru ac nid Caerdydd oedd eu dewis cyntaf.
Ym ben ar y cwbl, mi ddes i wybod am fodolaeth y Cymry di-Gymraeg. Peidiwch â chwerthin. Ond cyn imi gyrraedd Caerdydd, ni chredais fod yna bobl yng Nghymru nad oeddent yn medru'r iaith. 'Roedd gennyf frith gof am ddarllen am broblem iaith y deddwyrain diwydiannol ym mhapurau llwyd, Cymraeg, Taid. Ond sioc enfawr oedd sylweddoli maint y broblem yn bersonol. Cofiwch chi, fe ffurfiais i fy syniadau am Gymru pan oeddwn yn blentyn yn ystod fy ngwyliau haf h.y. ymhell cyn dyfodiad y teledu a'r tai haf.

Felly fe dreuliais lawer o oriau'n mapio cefndir y Cymry di-Gymraeg nad oeddent yn Saeson nac yn Gymry. Archwiliais a phendronais a pho fwyaf y sylweddolais fod y di-Gymraeg yn prysur golli eu gwreiddiau, mwyaf y deallais, am y tro cyntaf, safiad y Mudiad Cenedlaethol.


Weithiau, ar brynhawn Sadwrn, fe awn ar feic i Gaerffili neu Gefn Mabli ac weithiau i Bentyrch ac i lawr i'r Fro. Ac wrth ddychwelyd ar hyd Fford Allensbank yn yr hwyr, fe gawn gyffro wrth weld tarth yr hydref am Ysbyty'r Mynydd Bychan a'r drafford fel rhuban arianlwyd yn ymestyn at Gabalfa a'r machlud. Ar brynhawn Sul yn yr haf, fe awn am dro i Barc y Rhâth. Gweld y torfeydd yn torheulo a'n nhroed, heb yn wybod imi, yn fy arwain unwaith eto i ddrws siop odidog Thayers. Ac 'rwy'n cofio nosweithiau oer y gaeaf brysio adref ar hyd stryd Bute am ddau y bore am imi fethu a chael tacsi o'r Casino neu'r Casablanca. Hanner ofnwn y byddai'r 'Cediff Lads' yn ymosod arnaf.
A beth am rialtwch ddihafal y Gym Gym, sef Cymdeithas Gymraeg Colegau'r Ddinas? Bob yn ail wythnos fe awn i Glwb Canu Gwerin y Gym Gym. Ac am fisoedd ni sylweddolais mai Merêd oedd ein harweinydd! Gwell i mi esbonio. Ni sylweddolais mai'r un person oedd y dyn mwyn a'n harweiniai â'r Dr. Meredydd Evans y bu 'Nhad yn sôn mor barchus amdano. Hefyd, 'rwy'n cofio barbaciw o dan y sêr ar draeth Southerndown a sesh-esgus-cofio Dic Penderyn adeg glaw trwm y gaeaf.

Fe ges i'r anrhydedd o fod yn bresennol mewn tair Eisteddfod Ryng-golegol - yng Nghaerdydd, Bangor ac Aberystwyth a braf oedd cwmni afieithus y Gym Gym. Ond, yn bennaf oll, fe fyddaf yn cofio'r wythnos anhygoel honno pan ddaeth y Genedlaethol i feysydd Pentwyn. Yr wythnos honno, fe ddaeth Caerdydd yn brifddinas y Fro Gymraeg. Imi, honno oedd yr wythnos fwyaf yn hanes y ddinas - Pentwyn a'r Pafiliwn, Rocopera Dic Penderyn, Coron Sion Eirian, 'Blodeuwedd' yn y Bute a Belsassar yn fyw ar y Bib.

Fe ges i gyfle i nabod Cymru drwy deithio i wahanol ysbytai a threuliais gyfnodau o rhwng pythefnos a deufis yn Aberystwyth, Bangor, Casnewydd, Hwlffordd a Phontypridd. Felly, fe ddes i nabod yr ardaloedd hyn i gyd. Hefyd, fe ges i'r fraint o dreulio deufis mewn ysbyty fach ar lannau'r Ganga yn yr India ac i goleg y Mynydd Bychan y mae'n rhaid diolch am hyn. Fe ddylwn i sôn am y 'Dinesydd' (w, am seboni!). Mae'n rhaid imi ddiolch i'r papur bach annwyl hwn am y wefr o gael fy ngeiriau mewn print yn y Gymraeg am y tro cyntaf erioed. Gwell imi ddatgelu cyfrinach. Fi oedd y Dr. Ifan a ysgrifennodd golofn y Mynydd Bychan.

Fe hoffwn i ddiolch i dri pherson yn arbennig: i Mr. Raymond Edwards, golygydd y papur ar y pryd am gywiro fy ngwaith bob tro; i Mrs. Ethni Jones am fy annog i ysgrifennu yn y lle cyntaf; ac i Mr. Michael Jones am dynnu fy nghoes yn well na neb arall ers oes pys. Ychydig cyn Eisteddfod Caerdydd fe glywais i fod peth trafferth yn wynebu'r 'Dinesydd Dyddiol'. Gan fod Michael ar bwyllgor y fenter, fe'i holais beth oedd yr anhawster. Esboniodd mai gwraidd y broblem oedd anghydfod efo Reuters ynglŷn â thelerau ar gyfer yr Adran Newyddion Rhyngwladol! Credais y peth am wythnos a thridiau.

PARHAD AR DUDALEN 7




O DUDALEN 6

'Rwy'n cofio agweddau eraill ar fywyd Caerdydd nad ydynt mor hyfryd e.e. yr hunllef feunyddiol o fod yn fyfyriwr ym Mhrifysgol Cymru. Ni wyddai'r rhan fwyaf o'm darlithwyr na'm cyd-fyfyrwyr am bethau gorau Cymru. Nid oeddent yn malio chwaith. Hwn oedd y tyndra sydd bellach yn gyfarwydd imi sef pontio rhwng meddylfryd 'Y Faner' a'r 'Daily Mail', rhwng 'Helo Bobol' a Terry Wogan. Sylwais ar dyndra arall rhwng gwŷr y sefydliadau Cymraeg e.e. 'criw crach Bryntaf a'r B.B.C.' a Chymry Cymraeg eraill y ddinas gan gynnwys meddygon, gwyddonwyr a masnachwyr sy'n ceisio bod yn Gymry mewn meysydd lle nad yw'r Gymraeg yn brif iaith.

Byddaf yn cofio hyn oll wrth feddwl am Gaerdydd. Byddaf yn cofio camarweiniad, camddealltwriaeth a thrychineb yr Ymgyrch Ddatganoli ac East Moors, Siop y Triban, a Chapel Pembroke Terrace yn cau ... Byddaf yn cofio llawer o bethau. Dyna beth yw hiraeth, wedi'r cwbl.

Dr. David E. Morris

# CLWB CYMRAEG O Drelai

Twf mawr oedd yr hanes a glywodd aelodau C.C.C.C. mewn cyfarfod cyffredinol a gynhaliwyd yng Ngwesty'r Angel, nos Lun, 29ain o Fedi.

Ers ei sefydlu ym mis Mai eleni mae dros 200 o bobl wedi dod yn aelodau o'r Gymdeithas a 100 o'r rheiny yn talu £5 y mis am ddeunaw mis er mwyn dod yn aelodau sylfaenol o'r Clwb. Adroddwyd fod rhai pobl ddiwaith yn cyfrannu felly a bod cardiau talu wedi'u darparu ar gyfer pobl nad oes ganddynt gyfrif banc. Anogwyd yr aelodau i fynd allan a chasglu aelodau newydd ac amcangyfrifwyd fod angen dyblu nifer yr aelodau sylfaenol i 200 o leiaf cyn y gellir ystyried prynu adeilad, a'r gobaith yw cyrraedd y rhif hwn erbyn y flwyddyn newydd.

Mae'r Gymdeithas yn bwriadu trefnu gweithgareddau cymdeithasol o hyn ymlaen ac mae un noson wedi'i threfnu'n barod mewn cydweithrediad â Darlledu Caerdydd. Bydd Dafydd Iwan yng Ngwesty'r Great Western ar nos Wener, 21ain o Dachwedd.

Gellir cael rhagor o fanylion oddi wrth yr Ysgrifennydd, Nic ap Glyn, 135 Keppoch St., Plasnewydd, Caerdydd. Ei rif ffôn yw 497414.

**GWESTY LLETY CYMRO**

143 HEOL YR EGLWYS GADEIRIOL CAERDYDD. FFÔN 399659

**GWELY A BRECWAST**
**BWYD A GWIN DA**

TRWYDDED PRESWYL

G W E R S I 'K A R A T E' I'R C Y M R O N E U'R G Y M R A E S.

CYSYLLTWCH Â MAIR ROSSER, CAERDYDD 594992.

Dymunwn welliant buan i Gymro bach ifanc o Drelai, David Riley. Fe'i cadwyd ef yn Ysbyty Llandochau oddi ar ei enedigaeth ym mis Gorffennaf. Mae'n siwr fod ei frawd bach, Sion, a ddechreuodd yn Ysgol Bryntaf eleni yn awyddus iawn i'w weld yn dychwelyd adref.

Croeso i unrhyw un sy'n dysgu Cymraeg yn y drydedd flwyddyn i ymuno â'r criw bach hapus sy'n cyfarfod yn y Ganolfan Hamdden yn Nhrelai bob prynhawn Iau o 2.00 i 3.30. Mae'n debyg fod yr amser hwn yn gyfleus i rieni sydd â phlant yn yr ysgol.. Mae nifer o aelodau'r dosbarth yn dod o gyrrau pella'r Sir.

Croeso i Gaerdydd i Mr. a Mrs. Purnell o Nantgarw. Mae Mrs. Purnell wedi'i phenodi yn ddiweddar yn bostfeistres yn Nhrelai. Mae eu plant, Rachel a Tristan, yn ddisgyblion yn ysgol Bryntaf. Ar ôl dychwelyd o'r ysgol maent wrth eu bodd yn helpu eu mam yn Siop y Post. Felly dyma gyfle bendigedig i ddysgwyr Trelai ymarfer eu Cymraeg wrth brynu stampiau.

Llongyfarchiadau i Miss Jill Horwood o Drelai a Mr. Michael Lloyd Jones ar eu dyweddïad. Fe gafodd Jill yr anrhydedd o draddodi'r anerchiad o groeso ym Mhabell y Dysgwyr yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd. A phwy yw Michael Lloyd Jones 'te? Neb llai na Mici Plwm - ffrind holl blant Cymru.

Croeso i'r Brifddinas i Gerallt a Pat Nash o Dyddewi, Sir Benfro. Mae Gerallt wedi ymuno â'r Adran Adeiladau yn yr Amgueddfa Werin ac mae'r ddau yn mwynhau'r profiad o fyw mewn bwthyn bach to gwellt go iawn yn Sain Ffagan. Cyn iddynt ddod i Gaerdydd 'roedd y ddau yn aelodau o fwrdd golygyddol 'Pentigili', papur bro Tyddewi a'r cylch.

# Y GOLOFN GAIN

YNG NGOFAL ARFON

Wrth gyhoeddi cerdd Gilbert Ruddock y mis diwethaf soniais am W. C. Elvet Thomas a fu'n athro arno. Gŵyr Cymru gyfan am waith y gŵr hwnnw fel athro a gŵyr hefyd am ei lyfrau cyhoeddedig, y gyfrol ddifyr, hunangofiannol 'Tyfu'n Gymro' a'r casgliad o ysgrifau ar ŵyr mawr Iwerddon 'Balchder Erin', ond nid yw pawb yn gwybod iddo olygu'r 'Llusern', cylchgrawn capel Ebeneser, am chwarter canrif bellach, a'i olygu'n raenus a chyson hefyd.

Fe gyhoeddodd ambell gerdd yn y cylchgronau llenyddol o dro i dro, ond yn 'Y Llusern' y cyhoeddodd y soned gabol hon. Gan nad yw holl ddarllenwyr y 'Dinesydd' yn aelodau yn Ebeneser, ysywaeth, cefais ei ganiatâd i'w chodi i'r Golofn Gain y mis hwn.

Bu Ieuan Gwynedd yn aelod yn Ebeneser am ychydig flynyddoedd cyn ei farw cynnar ac yma y gwnaeth waith mawr ei fywyd. Bu farw ym 1852 a'i gladdu yn y Groes-wen, ond goroesodd ei weddw am ddeugain mlynedd a mwy a pharhau yn aelod yn Ebeneser tan y diwedd. Hyhi a roes ei gadair ef i'r eglwys. Cadair freichiau seml gefn-isel yw ac fe'i defnyddir yn gyson yn y festri islaw'r capel.

CADAIR IEUAN GWYNEDD

Hen gadair blaen ddi-addurn ydyw'n awr,
A chadair blaen ddi-addurn fu erioed
Heb unrhyw fath o gerfiad bach na mawr
Nac unrhyw awgrym i gyfleu ei hoed
Ond enw ei pherchennog enwog gynt
Ar blât o bres ar gefn y gadair hen
A'r enw hwnnw'n dwyn i gof holl hynt
A dioddefaint un o arwyr llên.
Eiddilaf un a fu er gwaetha'i boen
Yn ymladd brwydrau chwerw dros ei wlad.
Dros ferched Cymru, pan oedd angen hoen
Pob gwron dewr yn anterth berw'r gad,
O'r gadair hon, a staeniwyd gan ei waed,
Fe geisiwyd codi Cymru ar ei thraed.

W. C. Elvet Thomas

Gwaith Gilbert Ruddock, aelod arall yn Ebeneser, y mis diwethaf a gwaith Elvet Thomas y mis hwn.

Er ei hoen, tybed oes rhaid inni gael
Yn y Golofn delaid
Gân Annibynia'n ddi-baid?
Hastiwch, chwi Fethodistiaid!

Y cyfeiriad, cofiwch, yw 31 Heol Don, Yr Eglwys Newydd.


SIOP JEN

91, Stryd Pontcanna,

CAERDYDD

FFÔN 42933

GWLÂN, DILLAD

A NWYDDAU PREN


I'r Cathreiniwr

Mae gennym ni y Cymry
Ryw ddoniau gwych at rannu,
A chlochdar croch o'r domen dail
Yw sail ein holl drybini.

Mi glywes ambell grwtyn
A roes ei ben ar flocyn
Yn herio'r byd o gefan gwlad
A sôn am frad ei gyd-ddyn.

Rhaid dweud fy mod yn maddau
Ei anwybodaeth yntau
O ddweud ein bod heb fawr o ddawn -
Mae crawn ar ei amrannau.

Nid wyf am ddilyn eto
'Rôl trywydd y cadeirio
Na'r doniau mawr o'r tail a'r rhaw,
At rai mae'r baw yn sticio.

Mae'n amlwg tra oedd yma
A'r crach y bu'n segura,
Fe ddaethant hwy i aros tro
Fel fo i ddal 'r awenna.

Y ddinas yw f'anheddfan
Y ddinas yw fy nghrigfan,
Y ddinas lle ym ganwyd i
Sy'n uwch nag eiddig gecran.

Rhodri Jones

# COLOFN
## Shân Emlyn

• BJC 732 C •

Gyda gofid y cyhoeddwn i'r genedl ymadawiad un annwyl o'n plith - o leia, yn annwyl iawn gan bedair gwraig a saith o blant, ac yn wyneb siriol a chyfarwydd i lu o Gymry Caerdydd.

Cychwynnodd ei fywyd ym Mhen Llŷn, a dyna ichi Ogleddwr oedd hwn - mi lynodd at 'i wreiddiau hyd y diwedd. Dyna i chi gysondeb - Gogleddwyr fu ei bedwar perchennog - tair o Ben Llŷn ac un o Benllyn!

Cafodd fywyd diddorol a'i gamdrin yn amal. Ond bu'n hynod ufudd i holl orchmynion ei berchnogion. Chwerw braidd fu ei brofiad yn ei flynyddoedd cynnar. Tra'n teithio un diwrnod yn meindio ei fusnes ei hun ac heb ddod wyneb yn wyneb â neb o'i hil, fe'i cafodd ei hun yn y clawdd. Collodd ei ffydd yn ei feistres a mynegodd awydd am gael newid aelwyd. Os yn bosib carai fynd yn ddigon pell o Lŷn fel na fyddai rhaid iddo weld y clawdd arbennig hwnnw yn amal ac ail agor y briw.

Cymerodd un arall o Ben Llŷn drugaredd arno a rhyfedd fu'r bargeinio amdano. Prin oedd "yr arian yn y god" ond 'roedd gan yr ail wraig 'ma o Lŷn rywbeth a chwenychai'r wraig gynta o Lŷn a dyma setlo - rhai punnoedd - a be' feddyliech chi - carped grisiau glas! Dyna sut y daeth y Truimph bach i'n rhan.

Cymerodd rai blynyddoedd iddo ymgartrefu ac ymgodymu â thrafnidiaeth gymleth y brifddinas ac er gorchmynion ei feistres newydd, ufuddhaodd bob tro.

Wrth dalu teyrnged i'r ymadawedig mae'n arferol rhestru ei rinweddau. Yn ddi-os ei brif rinwedd oedd iddo hwyluso bywyd ei berchnogion. Fe âi i le cyfyng heb duchan ac o droi'r llyw fe droai fel top. Dywedasom yn amal "Mi fasa hwn yn troi ar bisyn tair petai rhaid iddo".
Yn y cyfnod hwn cafodd dipyn o addysg. Fe âi yn gyson i Fryntaf a daeth yn hoff iawn o blant. Gwyddai ble oedd gwersi ffidil, telyn, cello a phiano. Gwyddai am ddeintydd, doctor a phwll nofio. Dyma'r adeg y daeth yn ffond iawn o dda-da, hufen iâ a chrisps a dechreuodd gasglu priciau lolipops.

Fe gafodd y creadur amser digon helbulus efo'r hogan yma o Lŷn. Ddwywaith o leia, fe'i parciwyd ar allt heb sicrhau'r brêc ac yn ddiweddarach gwelwyd ef yn gorffwys wrth lamp ar waelod y stryd.

Rhoddodd ochenaid o ryddhad pan newidiodd aelwyd unwaith eto - y tro yma i aelwyd merch o Benllyn. Wrth lwc, teithiau tebyg oedd o'i flaen - gwersi piano a ffidil ac ati. Dringodd rywfaint ym myd addysg a dechreuodd fynychu Coleg Cyncoed. Câi fwy o fwytho oddi wrth y ferch o Benllyn. Bob tro y parciai'r car, eisteddai am rai munudau yn neidio i fyny ac i lawr er mwyn gwneud yn siwr bod y brêc wedi cydio ac nad oedd perygl iddo eto "lithro ar balmant y dre".

Ei berchennog ola oedd merch arall o Ben Llŷn, ac am a wn i, yr adeg hon y cafodd y gofal penna. Ar yr aelwyd hon y cafodd enw am y tro cynta sef JIBINC. Gofalodd y teulu hwn amdano'n dyner iawn, gan soldro'r rhan hon a'r llall. Cafwyd gwregys diogelwch iddo. Câi eli ar bob clwy. Ymhen amser daeth yn anodd gwybod pa ran ohono bellach oedd yn ddarn gwreiddiol. Trist yw cofnodi iddo fethu ei brawf M.O.T nid o fymryn ond o bob bai posibl, Dyna ddiwedd y daith i JIBINC.

Hyd yn hyn, ni wyddom ym mha le y gorffwys ei weddillion. Mor drist yw'r pedair merch fel bod yn well ganddynt beidio a gwybod. Ei gofio fel ag yr oedd sydd orau.

Y mae rhwd yn ddigymrodedd - yn awr,
Oherwydd trylwyredd
Y garaits didrugaredd
Ceir JIBINC ar ej y bedd.

Arfon a'i cant

O DUDALEN I

oedd y Noson Adloniant yng nghwmni Hywel Gwynfryn a'i ddisgo a Gwilym Roberts a'i dwmpath. Cawsom ganiatâd i ddefnyddio Neuadd Ysgol Eglwys Wen yn ogystal â'n neuadd ni fel bod digon o le inni grwydro a chael hwyl. 'Roedd hon yn noson gofiadwy i orffen y tymor - digon o fwyd wedi ei baratoi gan y mamau a digon o win yn llifo! 'Roedd hwn yn gyfle hefyd inni oll, yn rhieni ac athrawon ddod i nabod ein gilydd yn dda.
Daeth yr haf. Braf oedd gweld y plant ar y cae amser chwarae - y bechgyn yn chwarae criced a'r merched yn pigo llygaid y dydd ac yn gwneud cadwyni. 'Roedd popeth yn dawel yn yr adeilad.

Tra oedd pob ysgol Gymraeg arall yn paratoi ar gyfer cystadlaethau llwyfan Eisteddfodau'r Urdd, cawsom ein hesgusodi'r tro hwn gan taw dim ond Babanod oedd gennym. Daw tro Sam ... ! Beth bynnag cawsant gyfle i gystadlu ar y cystadlaethau ysgrifenedig a bu achos inni ddathlu pan glywsom fod Huw Harries wedi ennill yr ail wobr am ysgrifennu darn o farddoniaeth am 'Y Panto'.

Y digwyddiad mawr nesaf oedd y Ffair Haf. Trefnodd y rhieni bob math o weithgareddau diddorol i ddenu'r miloedd mân! Unwaith eto, dyna braf oedd cael cae o'n cwmpas. 'Roedd digon o le i'r injan dân a'r ambiwlans arddangos ac i'r band jass gael martsio. Sylwasom fod llawer o bobl yr ardal wedi dod yno ac 'roeddent yn garedig iawn ac am wybod mwy am yr ysgol.

Daeth Dydd y Mabolgampau - Babanod yr Eglwys Wen a Babanod Melin Gruffydd gyda'i gilydd. 'Roedd yn bosibl trefnu'r diwrnod gan fod y rhifau'n isel yn ein blwyddyn gyntaf. 'Roedd plant y ddwy ysgol wrth eu bodd a phawb yn cael "Smarties" am gyflawni eu campau.

Daeth rhagor o ymwelwyr i'n gweld gan gynnwys athrawon ar gwrs yn y Dyffryn, tîm ffilmio Cyngor yr Ysgolion a staff gyfan ysgol o Gwm Tawe.

Yna, cynhaliwyd Diwrnod Agored i bob dosbarth yn ei dro pan wahoddwyd y rhieni i ddod i weld gwaith eu plant. 'Roedd y cyntaf wedi bod ar bigau'r drain yn aros am y diwrnod hwn! Lluniwyd cwpled i gofnodi'r achlysur:-

Pa sawl mam, pa sawl tad ddaeth,
yn bryder i gyd?
Cyn gadael yr ysgol, yn hapus eu
byd.

Erbyn hyn, mae athrawes arall yn yr ysgol, sef Siwsan Hughes o Langefni, Ynys Môn. Mae Siwsan yn dysgu ein dosbarth cyntaf o blant iau.

Edrychwn ymlaen at flwyddyn hapus, lwyddiannus arall.




# TUDALEN Y PLANT

Roedd gan ffermwr gae sgwâr, ac roedd dwy ffens syth yn croesi'r cae. Roedd e wedi plannu un ar ddeg o goed yn y cae a nawr roedd e am gadw pob coeden ar wahân i'w gilydd.

Y broblem oedd, doedd e ddim am wario arian mawr ar godi sawl ffens. Ond fe ddaeth cyfaill ato fe gan ddweud, "Mae'r ateb i'r broblem yn hawdd. Y cyfan sy gen ti i'w wneud yw codi dwy ffens syth arall."

Dyma lun o'r cae ichi, ac mae'r ddwy ffens sydd ynddo'n barod wedi eu marcio gyda llinellau syth. Mae cylch yn nodi pob coeden. Y cyfan sydd rhaid i chi ei wneud yn awr yw tynnu dwy linell syth arall, ond cofiwch, dim ond un goeden (neu un dot!) fydd ym mhob rhan ar ôl ichi orffen.



Chewch chi mo'r ateb yn Y Dinesydd. Ond fe gewch chi help i ddatrys y broblem os ydych chi wedi methu. Gosodwch ddarn o bapur tenau, un y gellwch weld trwyddo'n weddol hawdd, ar y sgwâr ac ewch dros y llinellau a'r coed i gyd hefo pensil. Yna, trowch y papur drosodd, a gweld, wrth gwrs, bod y llinellau yn awr yn gorwedd o chwith. Dilynwch nhw, ac fe gewch yr ateb.

PROBLEM ARALL!!

Fe gafodd saer waith diddorol gan Y Cyngor Sir. Roedd y Cyngor wedi adeiladu cant o dai, ac roedd angen sgriwio rhif ar bob un, gan ddechrau gydag 1 a gorffen gyda 100. Y saer gafodd y gwaith o sgriwio'r holl ffigurau, ond roedd gan y Cyngor un broblem fach. Doedd yr un ffigwr 9 yn y pecyn o ffigurau. Meddai'r Cyngor, "Rhaid iti fynd i'r siop i'w prynu nhw. Cofia! Paid â phrynu gormod. Dim ond digon ar gyfer y gwaith. "

Pa sawl "9" fydd rhaid iddo'u prynu?

Yr unig ffordd ichi gael yr ateb yw gwneud hyn:

I ddechrau, dyfalu. Ysgrifennwch yr ateb ar ddarn o bapur. Yna, i weld a oeddech chi'n iawn, ysgrifennwch yr holl ffigurau o 1 i 100 ar bapur arall, 1, 2, 3, 4, 5 ....ac ati. Yna, rhifwch bob "9". Os oedd eich ateb cyntaf yn gywir, da iawn!

PÔS : Mae gan ddyn tlawd UN fatsien ac mae am gynnau tân, cannwyll a lamp olew. P'run ddylai gynnau gyntaf? Mae'r ateb yn y golofn nesaf!

DWY GÊM BARTI DDA!

Beth sydd orau mewn parti pen blwydd, tybed? Y bwyd blasus neu'r gêmau ar y diwedd?

Mae'n anodd meddwl am gêm ambell dro. Wel, dyma rai ichi. Pan ddaw eich parti pen blwydd chi, cofiwch amdanyn nhw. Fe all faint a fynnwch chi o'ch ffrindiau chi chwarae pob un.

Y gêm gyntaf

Ar gyfer hon, bydd rhaid i mami neu dadi brynu bar mawr o siocoled i chi, gorau i gyd po fwyaf. Wedi popeth, eich pen blwydd chi ydy e!

Byddwch chi hefyd eisiau cyllell a fforc a blwch dis a dis a phlât cinio.

Nawr, dyma'r drefn.

Rhowch y bloc siocoled, heb ei dorri, a heb ei bapur, ar y plât cinio, ar ganol y llawr gyda'r dis yn ei flwch yn ei ymyl. Trefnwch eich ffrindiau mewn cylch o'i gwmpas a gofynnwch i bob un agor ei geg yn barod

Gan mai chi sy'n cael pen eich blwydd, cewch chi fynd gyntaf. Cymryd y blwch a mynd i'r cylch. Taflwch! Os taflwch chi "6", mae gennych chi hawl i fynd at y bar siocled, ei dorri gyda chyllell a fforc, a dim arall, a'i fwyta. Ond dim ond un bloc ar y tro. Does neb i geisio bwyta mwy nag un. Tra bo'r person lwcus yn gwneud hyn, mae pob un sydd yn y cylch yn ceisio taflu chwech yn ei dro. Yn union y bydd un yn taflu chwech, rhaid i'r un sy'n torri ac yn bwyta'r siocled newid lle ag ef, a hynny ar unwaith - hyd yn oed os bydd bloc ar flaen y fforc!

Gorau i gyd po gyntaf i ffrindiau'r cylch weithio'r dis - i gael cyfle ar y siocled. Pob hwyl!

* * * * *

HA! HA!

Gêm hawdd - eto gyda'ch ffrindiau i gyd mewn cylch. Chi sy'n cael pen eich blwydd. Dywedwch chi,"HA!" ond heb chwerthin. Rhaid i i'r person nesaf atoch chi ddweud, "HA! HA!" Rhaid i'r llall ddweud, "HA! HA! HA!" Ac felly ymlaen. Rhaid i bob un sy'n chwerthin fynd o'r gêm a dechreuwch eto.

Yr ateb?
Y fatsien, wrth gwrs.

# Canlyniadau Cymysg

Mae'r tymor pêl-droed yn dechrau ym Medi ar gaeau'r ddinas ac eleni eto bydd dau dîm Cymraeg yn herio clybiau cyfeillgar o Grangetown a'r Rhymni ac yn y blaen, bob prynhawn Sadwrn tan y Pasg. Mae'r ddau dîm yn chwarae mewn dwy gynghrair - y cyntaf, Clwb y Cymric yn ail adran Cynghrair Caerdydd a'r Cylch, a'r ail, Aelwyd yr Urdd, ym mhedwaredd adran Cynghrair Gyfun Caerdydd.

Hwn yw deuddegfed tymor y Clwb ac mae wedi newid ei enw sawl gwaith yn y gorffennol. Ta waeth, 'Welshies' ydym i'r gwrthwynebwyr - hynny yw ar ddiwrnod da. Byddai sylfeini Capel y Crwys yn siglo pe bawn yn sôn am rai o'r enwau y'n gelwir ar ddiwrnod gwael!

Gan fod rhaid inni ddewis dau dîm bob pnawn Sadwrn, y broblem fwyaf ydi cael digon o chwaraewyr i lenwi pob safle a rhaid talu teyrnged i ddycnwch mwyafrif o'r bechgyn sy'n rhoi heibio'r cyfle i siopa gyda'r wraig er mwyn gwisgo trowsus bach, sannau, crys ac esgidiau pêl-droed beth bynnag fo'r hin. Mae croeso felly i unrhywun ymuno â'r Clwb a'i gynrychioli ar y cae pêl-droed. 'Rydym yn ymarfer bob nos Fercher o 6.30 p.m. hyd 8.00 p.m. yng nghampfa Ysgol Uwchradd Cantonian, Y Tyllgoed.

Swyddogion y Clwb eleni yw:-

Rhys Fôn Ifans - Cadeirydd ac Ysgrifennydd yr Ail Dîm
Eynon Williams - Ysgrifennydd y Tîm Cyntaf
Peredur 'Pwt' Efans - Trysorydd
Rheon Tomos - Trefnydd Adloniant
Gareth Huws, John Hardy - Hyfforddwyr (gwaetha'r modd!)
Huw Dafis - Capten y Tîm Cyntaf
Rhodri Gwyn Jones - Is-gapten y Tîm Cyntaf
Gwyn Williams - Capten yr Ail Dîm
Alwyn Griffiths ('Bags') - Is-gapten yr Ail Dîm

Rhaid cofnodi ar gof a chadw waith diflino swyddogion y Clwb yn y gorffennol a sylweddoli na fuasai na chlwb na dim arall heb eu hymroddiad llwyr i'w gorchwylion sy'n ddi-ddiolch ar brydiau.

Gwell imi sôn am brif amcan y Clwb, sef chwarae pêl-droed. Ym mis Medi chwaraeodd y ddau dîm bum gêm yr un. 'Roedd y canlyniadau'n gymysg.

Yn anffodus, colli pob gêm fu hanes yr ail dîm. 'Roedd y canlyniad gwaethaf ar ddydd Sadwrn ola'r mis yn erbyn Ysbyty'r Eglwys Newydd - colli o ddeg gôl i ddim. Ond dyfalbarhad fydd yr trechu yn y pen draw - os y gwnaiff gofio dod â'i esgidiau hefo fo. Cafwyd ambell i gêm glos, ond bydd dychweliad Tanc, chwaraewr y flwyddyn llynedd, yn ôl i'r rhengoedd yn siwr o wella'r sefyllfa.

Dechreuodd y tîm cyntaf yn well nag arfer. Cafwyd dwy fuddugoliaeth - y gyntaf yn erbyn Toriaid Rhymni o dair gôl i un a'r tair o fewn deng munud cyn diwedd yr hanner cyntaf. Y sgorwyr oedd Martin, Wyn a Rhodri - Martin yn rhwydo'r bêl rôl mynd rownd y gôlgeidwad unwaith, ddwywaith ... 'Roedd yr ail gêm yn well byth . Tîm Papur Wiggins Teape yn crynu fel dail wrth i beiriant y Cymric wneud ei farc. Tair gôl i ddim y tro hwn a Wyn a Rhodri (2) yn sgorio. 'Roedd amddiffyn y Clwb yn saff o dan ofal yr hynafgwr addfwyn, distaw, diffwdan, gweddus, hoffus hwnnw, Gareth Huws.

Wedi'r llawenydd, trychineb. Cyn-ddisgyblion Ysgol Rhymni yn chwarae efo deg dyn yn unig a rhoi cweir iawn i'r Clwb o bedair gôl i un. Rheon sgoriodd inni ond rhaid dweud iddo fethu cic gosb - se no môr! Y dydd Sadwrn canlynol, Medi 27, y gwrthwynebwyr oedd cyn-ddisgyblion Ysgol Fitzhalan a ninnau'r tro hwn efo deg dyn yn efelychu bois Rhymni a sicrhau gêm gyfartal, ddi-sgôr. Yn olaf, diolch i bawb sydd wedi ymddangos yng nghrysau'r Clwb eleni. Estynnwn wahoddiad i unrhywun sy'n dymuno dod i sylw Mike England a chael lle yng ngharfan Cymru ar gyfer cystadleuaeth Cwpan Byd 1982.

Rhodri Gwyn Jones
Pentyrch

Gol.
Beth am dipyn o hanes y Clwb Rygbi?

---

Ym ôl rheolau Amgueddfa Sain Ffagan, gostyngir y faner os bydd aelodau'r teulu brenhinol neu Gyngor yr Amgueddfa'n marw. Odi'r rheolau hyn yn gweddu i Amgueddfa Werin?

---


Mae Canolfan Dysgu cerddoriaeth ar ddechrau yn Rhiwbeina. Yn arbenigo mewn arholiadau,piano,llais ac ymarferiadau Elfennau Cerdd. Beti Cook,LRAM,ATCL. Ffoniwch Caerdydd 62006

TEIPYDD profiadol, yn barod i ymgymryd â gwaith preifat yn Gymraeg neu yn Saesneg. Telerau arferol. Cesglir y gwaith a'i ddychwelyd yn ddiymdroi. Caerdydd592653


HYSBYS:

Gall hysbysebu yn Y Dinesydd ddwyn ffrwyth! Mae gennym yn awr delerau da i wŷr busnes a phobl gyffredin fel ei gilydd. Dyma'r manylion:

| | |
|---|---|
| Tudalen lawn | = £42 |
| Hanner tudalen | = £21 |
| Dwy golofn ½tud | = £14 |
| ¼ colofn | = £ 3.50 |
| Hysbysebion llai | = £ 2.00 |

Os bydd rhaid i ni wneud y logo (print bras) codir £2 yn ychwanegol. Gellir hysbysebu manion i'w gwerthu, gwasanaethau ac ati am £2 yn unig. Trwy wneud hyn, byddwch yn helpu'r Dinesydd a chi eich hunain ar yr un pryd.

Cewch y manylion i gyd oddi wrth:

Mr Ieuan Lewis, 17 Driscoll Rd, Radyr, Caerdydd. Mae ar y ffôn yn 842831. Os yw'n "ddiwedd y byd" gellir ei gael hefyd yn 564888(BBC).

Gellwch weld yn y rhifyn hwn sut y gosodir hysbysebion mân. Hysbyseb i dynnu sylw!

# O'R POST


Annwyl Olygydd,

Yn ystod y misoedd diwethaf, mae'n amlwg fod amryw siopau yng Nghaerdydd yn gwrthod derbyn sieciau Cymraeg. Mae hyn yn warth ym mhrifddinas Cymru. Felly, mae'n ddyletswydd ar Gymdeithas yr Iaith ddatrys y broblem ddifrifol hon. Gofynnwn ichi ddanfon enwau a chyfeiriadau y siopau hynny sy'n gwrthod derbyn eich sieciau Cymraeg at Olygydd y Dinesydd. Diolch yn fawr am eich cymorth.

Cyfiawnder i'r Iaith,

Alwyn Gruffydd,
Is-Gadeirydd Cell
Caerdydd

# Y CROESAIR ~ Ap Lewsyn **Rhif 8**




AR DRAWS

I. Cymaint o laeth ag a gaiff y ffermwr ar un tro (6)
4. Arwydd yn y ffurfafen; anghyffredin yw'r lliaws degtroed (7)
9. O bryd i'w gilydd mae cyfarfod o'r Uchal Lys (9)
IO. Ar goedd, a mil yn y canol yn gwahardd (5)
II. Hogan lwcus fel hon yn cael anffawd (5)
I2. Hwyl cyffrous i Gôr Selyf y gaeaf hwn (9)
I3. A yw'r ing yn wallus o roi "h" ynddo? (7)
I5. "... ffydd, fel y gallwn ----- mynyddoedd" (6)
I7. Chwe nôd yn gwneud dwsin (6)
I9. Diffrwytho o achos canu tawel ar y Sul (7)
22. Clywir y garwedd hwn pan fydd hanner Rolls-Royce yn gwneud llanast o newid gêr (9)
24. Gweithiau Lladin, ond fe'u cenir yn unigol mewn Eidaleg yn aml.(5)
26. "Brenin y Llyn", y mae ganddo lôn yn Ninbych (5)
27. Annhirion yw'r un a geir yn chwalu pentwr dail Medi sy'n cynnwys pum cant (9)
28. A thithau wedi blino'n lân, gelli droi i'th ddugell di (7)
29. Deuwch o hyd i wir Natur wrth glywed calon Llansawel ar derfyn dydd (6)

I LAWR

I. "Pwy a'n ----- ni oddi wrth gariad Crist? (7)
2. Mae Doli, fel dysgwr, yn mynd o'i chwmpas hi heb ddim nonsens (5)
3. Cyflwr o betrusder sy'n nodweddu'r criw na sydd mewn trefn (9)
4. Y mae gan yr un sarrug wanc i lwgu sawl un (7)
5. A welir godi cronfur ar gae rygbi Sant Helen? (5)
6. Derbyniol iawn fyddai dwy acer ym Mro Morgannwg, o gymoni tipyn arnyn' nhw (9)
7. Beunydd (6)
8. "Bu galed y bygylu" yn hon (6)
I4. Fel dur (9)
I6. Nid gwŷr traed sy'n arwain ystalwyn i nogio yn wyllt (9)
I8. Gwych o beth fyddai croesi dau gi Seisnig ag un Rhufeinig (7)
I9. Parod iawn fydd pawb i weld fod y gân yn efelychiad ysgafn o gân adnabyddus (6)
20. Mae ar ei ben ei hun fel canwr! (7)
2I. Sut mae codi pwythau? (I,5)
23. Oni chei dy newid ni fydd iti hoen (5)
25. Hyn a wna pwyllgorddyn yn aml (5)



Cyhoeddwyd gan Bwyllgor y Dinesydd. Argraffwyd gan Fingerprints, 56 Mackintosh Place, Caerdydd.